


GRŴP PORTHLADDOEDD CYMRU

NODYN BRIFFIO ETHOLIADOL

Mae Grŵp Porthladdoedd Cymru yn cynrychioli barn y diwydiant porthladdoedd yng Nghymru. Y Grŵp yw'r unig fforwm o'i fath yng Nghymru ac mae'n cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru a gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol eraill.

1. Porthladdoedd yng Nghymru



Bob blwyddyn mae porthladdoedd Cymru yn trafod 9%, tua 53m tunnell, o holl nwyddau'r DU a gludir ac mae hyn yn cynnwys traffig llongau fferi, olew a nwy, cynwysyddion, dur, biomas, llwythi swmp yn ogystal â llwythi ynni adnewyddadwy ar y môr. Mae porthladdoedd hefyd yn darparu cyfleusterau hollbwysig ar gyfer llongau mordeithiau, gweithgareddau hamdden morol a'r diwydiant pysgota. Mae'r rhain yn fasnachau amrywiol a hanfodol, sy'n cefnogi bron i 11,000 o swyddi mewn porthladdoedd yn ogystal â chynnal rhannau hollbwysig eraill o'r economi.

Gwasanaethir ein heconomi gan gadwyni dosbarthu ledled y byd - nwy o Qatar a Trinidad; mwyn haearn o Awstralia a'r Americas; cynhyrchion adeiladau a masnachau hanfodol eraill i Ewrop ac o Ewrop; olew a thanwydd i bob rhan o'r byd, ac oddi wrthynt, gan gynnwys yr Unol Daleithiau, De America, Gorllewin Affrica ac Asia; a gwasanaethau llongau fferi i Iwerddon.

Fesul tunnell o gargo a symudir, morgludo sydd â'r effaith amgylcheddol lleiaf. Mae cynaliadwyedd yn ein heconomi felly'n dibynnu ar fuddsoddi mewn ardaloedd porthladd a'r seilwaith sy'n eu gwasanaethu.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Pwyllgor Menter a Busnes Llywodraeth Cymru adroddiad ar ei

ymchwiliad i'r Economi Forol yng Nghymru. Fel rhan o'r ymchwiliad cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Grŵp Porthladdoedd Cymru. Pwynt allweddol a godwyd gennym oedd bod cysylltiadau i borthladdoedd a'r rhwydwaith trafniadaeth cyffredinol yng Nghymru yn hanfodol i berfformiad porthladdoedd a chludo nwyddau a hefyd i economi ehangach Cymru. Gwnaeth y Pwyllgor rai argymhellion defnyddiol ar y mater hwn ac rydym yn awyddus i weld cynlluniau trafniadaeth sy'n cysylltu porthladdoedd yn cael eu blaenoriaethu a'u bwydo i mewn i'r broses polisi a chynllunio ar lefel cenedlaethol a rhanbarthol.

2. Datganoli a pholisi porthladdoedd



Mae Bil Drafft Cymru yn cynnwys cynigion i ddatganoli'r rhan fwyaf o swyddogaethau polisi porthladdoedd i Lywodraeth Cymru. Mae barn Grŵp Porthladdoedd Cymru ar hyn yn parhau i fod yn niwtral. Yr hyn sy'n wirioneddol bwysig yw'r fframwaith polisi y mae Llywodraeth Cymru yn ei datblygu. Byddem yn gobeithio y byddai hyn yn cael ei drosi'n bolisi porthladdoedd gan y Llywodraeth sydd wedi'i arwain gan y farchnad, cynnal y model perchenogaeth gymysg a chwarae teg holl i borthladdoedd Cymru fel nad ydynt o dan anfantais o'i gymharu â phorthladdoedd eraill y tu allan i Gymru. Mae fframwaith polisi presennol Cymru a Lloegr yn dempled da ar gyfer y polisi hwn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arwyddion cadarnhaol y byddai'n parhau â dull gweithredu wedi'i arwain gan y farchnad ar gyfer porthladdoedd ond rydym yn awyddus i agor trafodaeth. Bydd y cyhoeddiadau

diweddar parthed adolygiad o'r Bil Drafft yn ychwanegu peth oedi i'r broses, ond byddem yn gobeithio dechrau trafodaethau ar ôl etholiadau'r Cynulliad.

Er mwyn hyrwyddo cydweithredu gyda Llywodraeth Cymru, mae Grŵp Porthladdoedd Cymru wedi llunio nifer o amcanion polisi a rennir posibl. Gall y rhain fod yn sail i drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â datblygu polisi porthladdoedd ar gyfer Cymru yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Trafodaethau diwydiant/llywodraeth rheolaidd;
- Cynnal dull gweithredu wedi'i arwain gan y farchnad ar gyfer polisi porthladdoedd;
- Cefnogi'r cymysgedd presennol o wahanol fodolau perchennogaeth porthladdoedd;
- Symleiddio'r system gynllunio a chaniatâd morol;
- Strategaeth diogelwch morol sy'n pwysu a mesur anghenion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol;
- Fframwaith polisi sy'n caniatáu i borthladdoedd Cymru barhau'n gystadleuol gyda'r rheini sydd y tu allan i Gymru;
- Gwell cydnabyddiaeth o bwysigrwydd cynlluniau gwella cysylltedd ffyrdd a rheilffyrdd i borthladdoedd Cymru er mwyn annog twf mewn cludo nwyddau a theithwyr;
- Cyfnewid gwybodaeth am gyfleoedd twf mewn marchnadoedd porthladd.

Hefyd o ddiddordeb mae'r trefniadau ar ffordd o ddyrannu adnoddau ar gyfer uned borthladdoedd newydd yng Nghymru a fyddai â rôl caniatáu allweddol, yn goruchwyllo ceisiadau'r Gorchymyn Diwygio Harbwr. Edrychwn ymlaen at drafod y pwyntiau hyn gyda'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru.

Mae'r UE yn ffynhonnell deddfwriaeth arall. Mae'r Rheoliad Gwasanaethau Porthladdoedd sy'n cael ei ystyried ym Mrwsel ar hyn o bryd, yn gyfyngiad digroeso ar allu nifer o borthladdoedd yng Nghymru i wneud penderfyniadau o ran darparu gwasanaethau a phrisio sy'n seiliedig ar y farchnad. Rydym wedi gwerthfawrogi cymorth ASEau Cymru wrth ddadlau achos y sector porthladdoedd.

3. Yr amgylchedd a chynllunio



Ar y cyfan, mae gan borthladdoedd record ragorol o ran yr amgylchedd ac mae'r diwydiant yn ymroddedig i barhau â'i berfformiad amgylcheddol da. Mae datblygiadau porthladd yn destun cyfundrefn cynllunio a chaniatâd drylwyr. Rydym yn awyddus bod y prosesau hyn yn cael eu symleiddio cymaint â phosibl er mwyn helpu porthladdoedd i fwrw ymlaen â phrosiectau. Mae angen trwyddedau morol penodol gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn aml ar borthladdoedd er mwyn gweithredu a datblygu. Gall y rhain fod ar gyfer treillio er mwyn cynnal mynediad diogel i longau neu ar gyfer datblygiadau newydd. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'r gyfundrefn ffioedd trwyddedau morol ar hyn o bryd, a gallai hyn olygu cynyddu costau ar gyfer porthladdoedd.

Mae nifer fawr o weithgareddau yn parhau lle mae angen trwyddedau ac rydym wedi bod yn pwysu ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno nifer o eithriadau ar gyfer gweithgareddau risg isel, fel sy'n digwydd yn Lloegr. Hefyd, fel rhan o'r adolygiad, rydym yn awyddus bod y tîm caniatâd yn parhau i ganolbwyntio ar wasanaeth cwsmeriaid a'i lefelau perfformiad ei hun. Mae hefyd yn bwysig bod amodau trwyddedu ar gyfer caniatâd datblygu porthladdoedd yn gymesur.

Ar wahân, mae Llywodraeth Cymru yn y broses o lunio ei Chynllun Morol Cenedlaethol ei hun. Bydd y Cynllun yn darparu fframwaith strategol ar gyfer gweithgareddau arfordirol yng Nghymru ac mae ei angen er mwyn pwysu a mesur gweithgareddau economaidd-gymdeithasol a chynaliadwyedd. Mae draft presenol y Cynllun yn cydnabod gweithgareddau porthladd a morgludo pwysig, fodd bynnag rydym wedi awgrymu bod rhai polisiau cyffredinol yn rhy rhagnodol ac rydym wedi ysgrifennu at swyddogion yn amlinellu ein pryderon. Mae'n hollbwysig nad yw'r Cynllun hwn yn cyfyngu ar ddatblygiad a thwf.

Am ragor o wybodaeth am y materion hyn a phob mater yn ymwneud â phorthladdoedd, cysylltwch â:
Richard Ballantyne - Grŵp Porthladdoedd Cymru
richard.ballantyne@britishports.org.uk